OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 65 (Cy. 28)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 3 (Cylchfan Croesfoel) i Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Ionawr 2017* |
| *Yn dod i rym* | *6 Chwefror 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd yr holl draffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 3 (Cylchfan Croesfoel) i Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr, ac

(c) sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 6 Chwefror 2017 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road”*) yw’r darnau hynny o’r gefnffordd yn Sir Wrecsam a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” *(“special forces”)* yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar gerbytffordd tua’r gogledd na cherbytffordd tua’r de y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.**—(1) Pan waherddir symud traffig, gan erthygl 3, ar y gerbytffordd tua’r gogledd ond nas gwaherddir ar y gerbytffordd tua’r de, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y lôn allanol o gerbytffordd tua’r de y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua’r gogledd.

(2) Pan waherddir symud traffig, gan erthygl 3, ar y gerbytffordd tua’r de ond nas gwaherddir ar y gerbytffordd tua’r gogledd, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y lôn allanol o gerbytffordd tua’r gogledd y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua’r de.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd

dros 3.25 metr o led fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**10.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 9 ar waith.

**Atal Dros Dro**

**11.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 9 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**12.** (1) Ni fydd y cyfyngiadau a’r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**13.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Ionawr 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

### Gwrthlif a Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r de a cherbytffordd tua'r gogledd yr A483 o/i'r pwyntiau croesi presennol, 300 metr i'r de o ganolbwynt y bont ddeheuol wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) a 400 metr i'r gogledd o ganolbwynt y bont ogleddol wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

### ATODLEN 2

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

### ATODLEN 3

**Terfyn cyflymder 40 mya dros dro a gwaharddiad dros dro ar oddiweddyd**

Y darn o’r A483 sy’n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 3 ar danbont Cylchfan Croesfoel i ganolbwynt cerbytffordd gylchredol Cyffordd 7 (Cyfnewidfa’r Orsedd).